

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 27 Tachwedd 2001 i'w hateb ar 11 Rhagfyr 2001

R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

- 1. David Davies (Mynwy);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch dathliadau swyddogol Jiwbilî Aur Ei Mawrhydi y Frenhines yng Nghymru. (OAQ14615)
- 2. David Melding (Canol De Cymru);** A yw wedi cael trafodaethau, neu'n bwriadu cael trafodaethau, gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch adleoli staff y fyddin i RAF Sain Tathan. (OAQ14606)
- 3. Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff ddatganiad ar rôl y Pwyllgorau Pwnc wrth lunio Polisiâu'r Cynulliad. (OAQ14612)
- 4. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch ailenwi'r Weinyddiaeth yn y Cynulliad. (OAQ14614)
- 5. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar effaith datganiad y Canghellor cyn y Gyllideb ar Gymru. (OAQ14600)
- 6. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y modd y mae polisi'r Cynulliad ar ardaloedd gwledig yn parhau i gael ei gydlynu. (OAQ14620)
- 7. Christine Chapman (Cwm Cynon);** A all y Gweinidog adrodd ar ei gyfarfodydd diweddar gyda TUC Cymru. (OAQ14609)
- 8. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gyfarfodydd y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch datganoli mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ14607)
- 9. Brian Hancock (Islwyn);** A all wneud datganiad ar yr ymdrechion a wnaed gan Gabinet y Cynulliad i sicrhau bod yr amcanion a bennwyd yn nogfennau strategol Cynllun i Gymru yn cael eu cyflawni. (OAQ14602)

10. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei rôl fel cyd-lynydd materion trawsbynciol o fewn y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ14601) **W**

11. Pauline Jarman (Canol De Cymru); A wnaiff ddatganiad ar unrhyw gynlluniau sydd ganddo i ad-drefnu ei Gabinet. (OAQ14613)

12. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Wrth amlinellu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 'Cynllun i Gymru', pa ystyriaeth a roddodd Prif Weinidog Cymru i'r modd y gwneir pethau mewn gwledydd eraill yn Ewrop. (OAQ14617)

13. Helen Mary Jones (Llanelli); Pa gamau y mae wedi'u cymryd i egluro goblygiadau ailenwi Gweinyddiaeth y Cynulliad i'r cyhoedd. (OAQ14611)

14. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa ganran o'r ymweliadau Gweinidogol eleni oedd yn ymweliadau â'r gogledd. (OAQ14616)

15. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru); Pa gynlluniau sydd ganddo i wneud mwy i gydlynu polisïau'r Cynulliad ar gymunedau gwledig ledled Cymru. (OAQ14619)